

ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan [www.youtube.com](http://www.youtube.com) am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan [www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrando ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, gadewch i Mair wybod. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Bydd Andras a Heledd Iago, Bro Dinbych yn cynnal ysgol Sul ar Zoom am 10.30 ar fore Sul. Ewch i dudalen Facebook Bro Dinbych er mwyn ymuno â nhw.

ADNODDAU DYSGU

- **Ar gyfer rhieni plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

Cewch adnoddau eraill o bob math ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com).

LLAIS BRO ALED

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur datliad arbennig.

BUGEILIOL

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd bellach. Ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydach chi dymuno'n ffonio ni.

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 19 Ebrill 2020

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Gwahanol. Rhyfedd. Petai rhywun wedi gofyn i chi dros y dyddiau diwethaf sut oedd penwythnos Pasg 2020, dwi'n siŵr mai un o'r geiriau uchod a ddefnyddiwyd gan lawer ohonoch! Methu treulio amser gyda'r teulu, dim oedfaon gyda phobl mewn un lle yn cyd-addoli gyda'i gilydd, ac i rai, dim ymweliad â gwyliau Cristnogol megis *Word Alive* neu Llanw am y tro cyntaf ers talwm. Yn amlwg, fyddai neb wedi dewis treulio'r Pasg o dan y fath amgylchiadau, ond serch hyn mae'n Harglwydd Dduw yn parhau i fod ar waith yn y byd, ac mae'n parhau i alw'i bobl i'w addoli er gwaethaf y cyfyngiadau.

Yn naturiol, bydd nifer yn cwestiynu sut yr ydym fel Cristnogion yn gwneud synnwyr o gyfnodau fel hyn. Beth fedrwn ni ei ddweud pan mae pobl yn holi lle mae Duw yn ystod yr argyfwng hwn? Mae'n debyg bod Cristnogion ledled y byd yn pendroni ynglŷn â hyn o safbwynt eu ffydd bersonol neu wrth sgwrsio ag eraill, ac yn ddiweddar gwelais ddarn o gyfweliad gan y gweinidog a'r awdur adnabyddus Tim Keller lle'r oedd yn ymateb i'r union fater hwn. Yn ôl Keller mae tri pheth i'w ystyried. I ddechrau, cwestiwn – ydych chi'n tybio bod yr hyn yr ydym yn ei wynebu yn rhywbeth newydd? Mae dioddefaint ac afiechydon wedi bodoli trwy hanes y ddynoliaeth, ac maent yn cael eu crybwyll yn gyson yn y Beibl. Meddyliwch am yr hyn a wynebodd Job, neu Joseff yn yr Aifft, neu'r Apostolion yn Llyfr yr Actau. Nid yw'r Beibl yn darlunio'n byd presennol fel un perffaith lle nad oes angen a thristwch. I'r gwrthwyneb, o ddarllen trwy'r Beibl gwelwn mor anodd a phoenus y mae bywyd yn gallu bod mewn byd syrthiedig. Wrth i bob un ohonom gael ein heffeithio yn sgil yr amgylchiadau ar hyn o bryd, mae'n ein hysgwyrdd i ofyn cwestiynau dwys ynglŷn â rôl Duw yn ein bywyd ni, efallai am y tro cyntaf. Gall pobl fod yn gefnogol mewn egwyddor i ynni gwyrdd, ond mae'r prawf o'u cefnogaeth i'w weld pan ddaw cynlluniau i godi melinau gwynt daflad carreg o'u tai!

Yn ail, os ydym yn ystyried fod Duw yn ddigon mawr a grymus i allu atal yr holl dioddefaint, a'n bod yn methu'n lân a deall pam nad yw'n gwneud hynny, yna dylem bwylllo am ychydig a gofyn i ni'n hunain beth yn union ydym ni'n ei gredu am Dduw? Oherwydd. os ydym yn dweud ar un llaw fod Duw yn hollalluog, yna byddai'n gwbl gyson datgan bod gan y Duw hwnnw resymau dros ganiatáu dioddefaint na allwn ni eu deall. Os yw'r Arglwydd yn hollalluog, yna mae'n rhaid i ni sydd â chyfyngiadau ar ein deall a'n gallu gydnabod y bydd nifer o'i weithredoedd y tu hwnt i'n deall ni. Mae'r Apostol Paul yn datgan hyn yn gryno yn ei fawl i Dduw yn Rhufeiniaid 11:33-34 Beibl.net:

“Mae e mor aruthrol o ddoeth! Mae’n deall popeth! Mae beth mae e’n ei benderfynu y tu hwnt i’n hamgyffred ni, a beth mae’n ei wneud y tu hwnt i’n deall ni! Pwy sy’n gallu honni ei fod yn deall meddwl yr Arglwydd? Pwy sydd wedi dod i wybod digon i roi cyngor iddo?”

I’r rhai sydd mewn pwll o anobaith a thristwch, mae’n bosiblwydd cryf na fydd gwybod bod meddyliau’r Arglwydd gymaint yn uwch na’n meddyliau ni (Eseia 55:9) yn dod â chymaint â hynny o gysur iddynt. Ond i’r rhai sy’n ymbalfalu ynghanol tor-calon ac ofn, y trydydd peth i’w gofio yw er na allwn egluro’n union pam fod Duw yn caniatáu dioddefaint penodol, gallwn ddweud un peth pendant. Nid yw Duw yn caniatáu'r sefyllfa hon, nac unrhyw ddiodeffaint arall, oherwydd bod ei gariad yn ddiffygiol. Yr hyn sydd wedi cael ei amlygu i ni dros wythnos y Pasg yw bod cariad Duw yn rhyfeddol. “Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.” (Ioan 3:16) Mae cariad Duw mor eithriadol nes ei fod wedi dod yn Iesu Crist i ganol ein diodeffaint, a bod y Mab wedi diodeff ei hun ar y Groes er mwyn sicrhau y byddai diwedd parhaol i bob math o bechod, diodeff a cholled.

Wrth gwrs mae ffydd yn allweddol er mwyn i hyn oll fod yn gysur i ni, ac mae angen cymorth yr Ysbryd Glân arnom, nid yn unig i gredu, ond i barhau i droi at Crist a derbyn o’i ras o ddydd i ddydd. Ond diolch i Dduw, ni adawodd Crist ei ddisgyblion yn amddifad, ac nid yw Cristnogion heddiw’n brin ychwaith oherwydd rhodd yr Ysbryd Glân. Cofiw’n eiriau Iesu “... yr ydych yn awr mewn tristwch. Ond fe'ch gwelaf chwi eto, ac fe lawenha eich calon, ac ni chaiff neb ddwyn eich llawenydd oddi arnoch.” (Ioan 16:22)

Rhodri

## Ydach chi'n defnyddio e-bost?

Diolch i’r rhai ohonoch sydd eisoes wedi cysylltu. Os oes mwy ohonoch yn defnyddio e-bost a’ch bod yn fodlon inni anfon Llais Bro Aled ac unrhyw wybodaeth neu adnoddau eraill i chi ar e-bost, plis wnewch chi anfon neges i [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com)? Oherwydd y cyfyngiadau presennol, nid ydym bellach yn dosbarthu Llais Bro Aled nac unrhyw ohebiaeth o dŷ i dŷ, ond (os ydach chi wedi rhoi caniatâd i ni ar y ffurflen Diogelu Data) byddwn yn hytrach yn eu hanfon gyda’r post. Os ydach angen ffurflen ganiatâd arall neu os ydach yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych, cysylltwch â Mair.

## DVD

Erbyn hyn, mae modd i’r rhai ohonoch sydd ddim yn defnyddio’r we ond sydd â pheiriant DVD i fedru gwyllo a gwrando ac ymuno yn yr addoliad mewn recordiad o’r oedfaon sy’n cael eu darlledu ar y we. Os hoffech dderbyn DVD yn wythnosol, plis rhowch wybod i Mair.

## Casgliad Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd

Mae Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn cyfrannu’n hael at waith gweithwyr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth a phrosiectau gartref a thramor bob blwyddyn. Eleni, bu i chwiorydd Eglwys Bro Aled gyfrannu £415.00 tuag at y casgliad arbennig hwn – diolch i chi am eich haelioni.

## Cofion a Chyfarchion

Er nad ydym yn cael eich gweld wyneb yn wyneb ar hyn o bryd, parhawn i gofio amdanoch i gyd. Ein gweddi yw y byddwch yn cadw’n iach ac yn ddiogel, a’ch bod yn profi gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu. Diolch am garedigrwydd pobl o’n cwmpas a’r ddarpariaeth eang o wasanaethau sydd wedi eu sefydlu i’n helpu yn gorfforol ac yn ysbrydol dros y cyfnod hwn. Diolchwn i Dduw hefyd am yr holl weithwyr rheng-flaen sy’n gwasanaethu mewn cyfnod mor anodd a phryderus. Cofiwch, os oes unrhyw un ohonoch yn gorfod hunan-ynysu gartref ac nad oes gennych rywun i droi ato i ddod â neges a phresgripsiwn neu unrhyw beth arall hanfodol i chi, plis cysylltwch â Rhodri neu Mair ac fe wnawn ein gorau i weld sut allwn eich helpu.

Llongyfarchiadau i Gari Evans (Saron) ac Alaw ar enedigaeth merch – Anni Ellis, chwaer fach i Jacob. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i’w ofal.

Anfonwn ein cofion at Gwyneth Rawson (Llanfair) sydd bellach yn cael gofal yn Ysbyty Bae Colwyn, a hefyd Edwin Jones (Peniel) dreuliodd ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd ond sydd bellach wedi cael dod adref ac mewn hwyliu da. Dymunwn wellhad buan iawn i’r ddau ohonoch ac i bawb arall sy’n gwella yn dilyn cyfnod o salwch neu sydd heb fod cystal eich iechyd y dyddiau hyn.

Bydd eraill ohonoch yn pryderu am aelodau o’r teulu neu ffrindiau sydd ddim yn dda. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw a gweddiwn y byddwch chi a’ch hanwyliaid yn profi daioni’r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Parhawn i gofio hefyd am bawb sy’n galaru am anwyliaid. Gweddiwn ar i Dduw eich cofleidio yn dynn ac y bydd ei gariad tragwyddol yn rhoi nerth a chysur i chi. “Y mae’r ARGLWYDD yn agos at y drylliedig o galon ac yn gwaredu’r briwedig o ysbryd.” (Salm 34:18)

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i’w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (29<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.